**CABINET - DYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2023**

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2023, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | JPD Blundell |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Liam Ronan | |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

204. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Y Cynghorydd Farr – Eitem 10, Rhagfarnus

205. CYMERADWYO COFNODION

Cymeradwyo cofnodion 20/06/2023 fel cofnod gwir a chywir.

206. MONITRO CYLLIDEB 2023-24 – RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 1

Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi diweddariad i'r Cabinet ar sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor fel ar 30 Mehefin 2023 a gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau dros £100,000 sydd angen cymeradwyaeth gan y Cabinet yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid grynodeb o'r sefyllfa bresennol. Mae'r pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023-24 yw £342.334 miliwn. Y sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar 30 Mehefin 2023 yw gorwariant net o £9.727 miliwn.
- Mae'r gorwariant a ragwelir yn bennaf oherwydd pwysau parhaus o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac ar y gyllideb Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.
- Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2023-24 yn cynnwys cynigion lleihau cyllideb gwerth cyfanswm o £2.608 miliwn. Y sefyllfa bresennol yw diffyg rhagamcanol ar y targed arbedion o £200,000, neu 7.67% o darged y gostyngiad cyffredinol.
- Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn ystod chwarter 1 o 2023-24 sydd wedi nodi £3.067 miliwn

o gronfeydd wrth gefn y gellir eu datod i gyfrannu at risgiau sy'n dod i'r amlwg i'r Cyngor cyfan yn ystod 2023-24. Roedd £733,000 pellach o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gael eu defnyddio ar gyfer cynlluniau tebyg.

- Mae'n rhy gynnar yn y flwyddyn ariannol i roi syniad realistig o'r incwm rhagamcanol o'r dreth gyngor ar gyfer eleni ac a yw'r Cyngor yn debygol o weld gostyngiad yn ei incwm o'r dreth gyngor ai peidio gan fod mwy o bobl wedi profi caledi ariannol oherwydd yr argyfwng costau byw presennol, neu a fydd yr incwm ychwanegol y dylid ei gasglu drwy gyflwyno premiymau Treth y Cyngor ar eiddo gwag yn effeithio. Bydd hyn yn amlwg yn cael ei fonitro'n fanwl iawn drwy gydol gweddill y flwyddyn hon.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid am yr adroddiad. Nododd fod yna orwariant sylweddol y byddai'n rhaid mynd i'r afael ag ef ac y byddai angen gwneud asesiad fforensig o'r pwysau a'r effaith lawn ar yr awdurdod.

Nododd ei fod wedi bod mewn cyfarfod rhwydwaith aelodau cabinet cyllid ac er na roddodd fawr o gysur, ei fod ychydig yn galonogol bod y pwysau hyn i'w cael ledled Cymru. Nododd ei gefnogaeth i'r trosglwyddiadau a'r argymhelliad.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn, wedi'i hysgogi gan gyfres o gwestiynau gan Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Llesiant, ynghylch taliadau uniongyrchol, p'un a oedd teuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd â phecynnau dyblyg (h.y. taliadau uniongyrchol a phecynnau gofal cartref) ac os felly, pam, a oedd y Cyngor yn hawlio taliadau uniongyrchol yn ôl os nad oeddent wedi cael eu defnyddio, a'i bod yn ymddangos bod gorwariant mewn rhai meysydd staffio a thanwariant mewn eraill.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cyngor yn adennill taliadau uniongyrchol nas defnyddiwyd. Nododd hefyd fod tanwariant yn codi oherwydd swyddi gwag er enghraifft, a gorwariant oherwydd pethau fel costau asiantaeth. Fel y cyfryw, ffigur net yw'r ffigur ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft. Mae rhywfaint o danwariant mewn rhai timau ar staffio, tra gall timau eraill fod yn gorwario am amrywiol resymau.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn hytrach na chael pecynnau dyblyg, fod rhai preswylwyr, yn dibynnu ar eu hanghenion, yn derbyn pecynnau gofal cymysg.

Mynegodd Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd ei bryder ynghylch yr effaith negyddol y gallai'r sefyllfa bresennol ei chael ar gyfarwyddiaethau eraill megis Cymunedau. Apeliodd ar bob un swyddog o'r top i'r gwaelod, ond yn bendant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, i feddwl ddwywaith bob tro y maent yn gwario arian.

Nododd y Dirprwy Arweinydd y byddai'n rhaid i holl aelodau'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau anodd wrth symud ymlaen ynglŷn â ble rydym yn gwario ein cyllid.

Gofynnodd i'r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid a oedd ganddi unrhyw syniadau ynghylch sut yr oedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud yng Nghymru o ran y gorwariant ar wasanaethau cymdeithasol, ac a oedd y gorwariant yn y gwasanaethau cymdeithasol oedolion a/ynteu plant.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid fod pob awdurdod yn adrodd am bwysau a bod pryder ledled Cymru ynghylch gwariant gwasanaethau cymdeithasol, yn y gwasanaethau i blant ac i oedolion.

Cydnabu'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid, mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd, fod gorwariant mewn rhai achosion o gwmpas 5%, ond bod rhai awdurdodau yn rhagweld hyd at 20% o orwariant. Mae pob un yn dangos cynnydd canrannol yn eu cyllideb eleni.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at bum problem:

- y Gyllideb Cymorth i Ddysgwyr a'r heriau yn ymwneud â lleoliadau y tu allan i'r awdurdod oherwydd cynnydd yn y galw a diffyg lle yn Heronsbridge ac Ysgol Bryn Castell. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd eu bod yn ymwybodol iawn fod cynnydd wedi bod mewn lleoliadau y tu allan i'r awdurdod ond fe wnaeth hi'n glir hefyd fod yr ysgol yn lle Heronsbridge wedi'i chomisiynu ac y bydd ynddi o gwmpas 40 o leoedd ychwanegol a 4 gwely preswyl ychwanegol.
- Y gorwariant a ragwelir yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Rheoleiddiol sy'n rhannol oherwydd gwasanaethau uwch gwnsler. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol fod y gorwariant yn uniongyrchol gysylltiedig ag achosion gofal plant a gymerwyd drwy broses y llys. Mae'r ffioedd ar gyfer pob cais bellach yn fwy na £2000. Mae'r achosion yn dod yn fwy cymhleth, sy'n golygu bod angen i'r awdurdod gyfarwyddo uwch gwnsler i fod yn bresennol, weithiau gyda gwrandawiadau llys hir iawn. At hynny, mae'r ffioedd ar gyfer arbenigwyr yn cynyddu a chan mai cais awdurdod lleol ydyw, mae'r llys yn teimlo y dylai unrhyw ddiffyg rhwng y ffioedd cymorth cyfreithiol a ganiateir, a chost wirioneddol yr arbenigwr gael ei dalu gan yr awdurdod lleol.
- Mewn rhai meysydd o wariant gwasanaethau cymdeithasol, fel gofal cartref iechyd meddwl er enghraifft, ceir cyfraniadau gan ein partneriaid, megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gofynnodd a ellid cadarnhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gyfraniad ein partneriaid. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, o ran gwasanaethau iechyd meddwl, fod trefniant sefydledig ar gyfer unigolion sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a bod y costau'n cael eu rhannu 50/50. Mewn meysydd eraill, gall gwaith gyda'r bwrdd iechyd fod ychydig yn fwy dadleuol. Er enghraifft, mae gofal iechyd parhaus wedi bod yn faes polisi cyhoeddus sydd wedi bod yn destun dadl ers blynyddoedd lawer ac mae'r gweithlu ar y rheng flaen yn ceisio sicrhau y cedwir at y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ynghylch gofal iechyd parhaus i oedolion a phlant, ond mae'n her.
- Credai y gallai fod angen ystyried ac archwilio mater y ffioedd a'r taliadau a osodir ar unigolion. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod hwn yn faes rheoledig iawn o ran polisi cyhoeddus a bod Llywodraeth Cymru yn gosod capiau o ran y swm y gellir ei godi ar unigolion.
- Nododd y tanwariant ar ofal preswyl iechyd meddwl a nododd ei bod yn hollbwysig bod tanwariant yn cael ei gynyddu. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y gallai roi'r sicrwydd hwnnw. Nododd hefyd y bu llwyddiant mawr yn yr awdurdod hwn o ran cynorthwyo pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.
- Nododd y gorwariant ar ofal preswyl annibynnol i blant a bod yr awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn darpariaeth newydd ym Mrynmenyn. Gofynnodd am ddiweddariad ar y datblygiad hwnnw a chadarnhad bod yr awdurdod lleol yn ystyried dewisiadau eraill i gynyddu'r gefnogaeth breswyl yr ydym yn ei darparu yn y sir. Cafwyd diweddariad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar ddatblygiad Brynmenyn, gan nodi bod yr adeilad yn agos iawn at gael ei drosglwyddo gan y contractwyr. Mae rheolwr wedi cael ei recriwtio ac mae staff eraill wrthi'n cael eu recriwtio.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd mai'r lleoliad gorau i blant oedd mewn uned deuluol. Ei phle oedd, os oeddech yn gwybod am unrhyw un oedd eisiau maethu neu oedd yn ystyried hynny, cyfeiriwch hwy at y wefan lle mae gwybodaeth ar gael.

Gorffennodd yr Arweinydd yr eitem hon ar yr agenda drwy nodi bod angen bod hyd yn oed yn fwy gofalus yn awr ynghylch y ffordd y defnyddir adnoddau ariannol ac felly byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gynnull fyddai'n edrych yn benodol ar y pwysau a'r heriau ariannol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ac yn ceisio darparu rhywfaint o gymorth ychwanegol i'r gwasanaeth hwnnw yn ei daith barhaus o ailfodelu a rheoli o fewn y cyfyngiadau ariannol y mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn nodi'r sefyllfa refeniw a ragwelir ar gyfer 2023-24; ac

Yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau dros £100,000 fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.1.7.

207. DIWEDDARIAD AR CHWARTER 1 RHAGLEN GYFALAF 2023-24

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad hwn. Ei ddiben oedd:

- cydymffurfio â gofyniad 'Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol' (rhifyn 2021) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i adrodd am berfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion sy'n edrych i'r dyfodol, fesul chwarter.
- rhoi diweddariad ar sefyllfa'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023-24 fel ar 30 Mehefin 2023 (Atodiad A).
- Gofyn am gytundeb y Cabinet i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor i gymeradwyo rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 i 2032-33 (Atodiad B).
- nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24 (Atodiad C).

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol dempled newydd yr adroddiad a nododd, er ei fod yn croesawu grantiau Llywodraeth Cymru, ei fod yn dyfalu ynghylch goblygiadau refeniw gwirioneddol mentrau fel prydau ysgol am ddim. Soniodd hefyd am y gwariant ar gerbydau fflyd ac a oedd yn gwbl angenrheidiol eu newid yn awr.

Ymatebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid drwy nodi y byddai goblygiadau refeniw yn ffurf costau rhedeg ar gyfer y cerbydau fflyd newydd, ond roedd yn tybio bod y rhan fwyaf o'r fflyd fyddai'n cael ei brynu yn cymryd lle'r hen gerbydau ac y byddai costau rhedeg yn gostwng mewn gwirionedd. Nododd ymhellach y byddai effaith ar y cyfrif refeniw oherwydd bod hynny'n cael ei ariannu drwy fenthyca ac felly bod angen i wasanaethau wneud yn siŵr cyn iddynt brynu'r fflyd honno y byddent yn gallu fforddio i ad-dalu'r benthyciadau y byddai rhaid eu cymryd allan er mwyn eu hariannu nhw. Ychwanegodd y byddai'n werth gwneud rhai o'r canlyniadau hynny'n fwy amlwg mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Tynnodd y Dirprwy Arweinydd sylw at ddau fater:

- Grantiau cyfleusterau i'r anabl, ac yn benodol y dyfarniad o £0.1 miliwn gan Gronfa Tai â Gofal Cwm Taf Morgannwg, fydd yn cael ei ddefnyddio i ariannu offer ac addasiadau i gartrefi presennol nad ydynt yn cael eu cefnogi gan grantiau addasiadau eraill gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ychwanegu at gost Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.(DFG) dros yr uchafswm statudol o £36,000. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant mai'r strategaeth dros nifer o flynyddoedd oedd bod grantiau cyfleusterau i'r anabl yn helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain ac y gall hynny leihau'r angen am ofal parhaus.

- caffael y cerbydau, peiriannau ac offer presennol a ddefnyddiwyd i ddarparu'r gwasanaeth gwastraff presennol gyda Kier Services Limited. Yn benodol, a fyddai CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cael gwarantau ar unrhyw offer neu gerbydau a pha mor hen oeddent. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y canfuwyd mai gwerth gweddilliol y cerbydau a'r cit oedd £460,000 a bod hyn yn werth da o'i gymharu â'u prynu o'r newydd a fyddai wedi costio £1.5 miliwn. Nododd y byddent yn cymryd meddiant o unrhyw warantau gwneuthurwyr oedd yn weddill. Dywedodd, serch hynny, fod rhai o'r cerbydau wedi cael eu defnyddio ers saith mlynedd ac mai dim ond deng mlynedd oedd eu disgwyliad oes.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles am ragor o wybodaeth am yr Ysgolion Bro, prosiect a gefnogwyd â grant o £2.398 miliwn gan Lywodraeth Cymru a'i nod oedd targedu cynlluniau cyfalaf bychain a chanolig i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor yn effeithiol y tu allan i'r oriau traddodiadol.

Dywedodd Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd y gallai roi'r rhestr gyflawn o 22 o brosiectau i'r Aelodau. Nododd y byddai'r prosiectau nid yn unig yn caniatáu mynediad y tu allan i oriau ysgol ond hefyd yn gwella'r ysgolion. Y mathau o bethau yr oeddent yn buddsoddi ynddynt oedd pethau fel llifoleuadau, ystafelloedd newid, llwybrau, ffensys ac yn y blaen.

Gwnaeth yr Arweinydd yn glir ei fod yn croesawu'n fawr y buddsoddiad o £2.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ein hysgolion a'n cymunedau.

Atgoffodd Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd bawb ei bod yn rheidrwydd gwneud yn siŵr bod unrhyw gerbydau a brynir yn cael eu defnyddio ac nad ydynt yn eistedd yn segur y tu allan i ganolfannau dydd neu ddepos. Os mai felly yr oedd hi, nid oedd eu hangen. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau na allai gytuno mwy a bod hynny'n rhywbeth oedd yn rhan allweddol o adolygiad y fflyd. Dywedodd eu bod yn dechrau gyda'r cerbydau milltiredd uchaf ac yn edrych ar ble maent yn cael eu defnyddio a hefyd a oedd modd rhannu cerbydau rhwng gwasanaethau. Peth pwysig arall oedd newid cerbydau am rai newydd dim ond pan fyddent wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol. Roedd angen sicrhau mai dim ond y nifer cywir o fflyd oedd ar gael a'i bod yn addas i'r diben ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Dywedodd y byddai'n falch o ddod ag adolygiad y fflyd i'r Cabinet fel y gellid cael trafodaeth wybodus yn ei gylch.

Gwnaeth yr Arweinydd yn glir y byddai'n falch i weld adolygiad y fflyd yn dod yn ôl i'r Cabinet.

Tynnodd Aelod y Cabinet dros Addysg sylw at ddau ddarn sylweddol o fuddsoddiad yn yr adroddiad:

- Cinio Ysgol Am Ddim, yn enwedig yr estyniad i'r gegin yn Ysgol Gynradd Trelales, a phrynu podiau cegin yn Ysgol Gynradd Cwmfelin, Ysgol Gynradd Newton ac Ysgol Babanod Bryntirion.
- Gofal Plant Dechrau'n Deg. I gefnogi'r gwaith o ddarparu Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £0.185 miliwn i greu darpariaethau Dechrau'n Deg yng Nghwm Ogwr a Phont-y-cymer, a bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i newid pwrpas ystafelloedd dosbarth yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr a Meithrinfa Pontycymer.

Gorffennodd yr Arweinydd yr eitem hon ar yr agenda drwy dynnu sylw at y cynnig i roi hwb i'r Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn nodi diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2023-24 hyd at 30 Mehefin 2023 (Atodiad A).
- yn cytuno bod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i gael ei chyflwyno i'r Cyngor am ei gymeradwyaeth.

yn nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24 (Atodiad C).

208. RHEOLI'R TRYSORLYS - CHWARTER 1 2023-24

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad hwn. Ei ddiben oedd:

- Cydymffurfio â gofynion 'Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus' (y Cod) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i roi trosolwg ar weithgareddau'r Trysorlys dros y flwyddyn ariannol flaenorol.
- Darparu diweddariad ar weithgaredd Rheoli'r Trysorlys am chwarter cyntaf 1 Ebrill - 30 Mehefin 2023.

Ar 30 Mehefin 2023 roedd gan y Cyngor £99.79 miliwn o ddyled tymor hir, £13.80 miliwn o rwymedigaethau tymor hir eraill a £94.00 miliwn o fuddsoddiadau tymor byr, yn gwneud safle net y ddyled gyffredinol yn £19.59 miliwn.

Y gyfradd llog ar gyfartaledd ar gyfer dyled oedd 4.69% (ac eithrio benthyca Salix sy'n ddi-log) ac ar gyfer buddsoddiadau roedd yn 4.16%.

Mae gan y Cyngor strwythur aeddfedrwydd hylaw o fenthyca, gyda'i ddyled gyfredol yn daladwy ar wahanol bwyntiau dros y 30 mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol yr adroddiad a thynnu sylw at y materion canlynol:

- Bod buddsoddiadau'r Cyngor wedi cynyddu ers diwedd mis Mawrth. Y prif reswm am hynny yw bod Llywodraeth Cymru, fel arfer, yn darparu dau daliad inni o'r grantiau sy'n ddyledus inni yn ystod y flwyddyn ym mis Ebrill, sy'n golygu bod gennym fwy o arian i mewn ar ddechrau'r flwyddyn nag y mae arnom ei angen mewn gwirionedd i'w wario dros y cyfnod hwnnw. Felly, mae ein buddsoddiadau wedi cynyddu, mae hynny'n normal ac rydym yn adlewyrchu'r sefyllfa honno yn y mwyafrif o flynyddoedd ariannol.
- Bod y Cyngor yn dechrau elwa o gyfraddau enillion uwch ar ein buddsoddiadau. Mae ein cyfraddau buddsoddi yn tueddu i symud gyda'r gyfradd banc yn weddol gyflym ond bydd peth oedi o ran y buddsoddiadau sydd gennym ar hyn o bryd, cafodd y gyfradd fuddsoddi ei chytuno ar yr adeg y buddsoddwyd yr arian ac mae'n sefydlog am weddill y cyfnod buddsoddi hwnnw. Felly, yr hyn yr ydym ni'n dechrau ei weld yw, wrth i'r cyfraddau gynyddu, ein bod yn awr yn cael enillion gwell arnynt.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys am 2023-24 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 30 Mehefin 2023.

yn nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2023 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24.

209. CYNLLUN CYFLAWNI CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023-24 A'R FFRAMWAITH PERFFORMIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Prif Weithredwr a Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus. Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Cynigiai'r adroddiad Gynllun Cyflawni newydd un flwyddyn i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.
- Mae'r Cynllun Cyflawni'n mynd i'r afael â beirniadaeth a wnaed gan hunanasesiad 2022, adolygiad Archwilio Cymru o reoli perfformiad a chanfyddiadau archwilio mewnol o archwiliad Dangosyddion Perfformiad (DP).
- Mae'r prif newidiadau yn cynnwys:

  - Bod y 7 amcan llesiant yn cael eu hadlewyrchu'n gynhwysfawr gan 44 nod, 101 o ymrwymiadau a 99 o Ddangosyddion Perfformiad (DP).
  - Cael nodau clir y cytunwyd arnynt i roi manylion o dan bob amcan llesiant a chynorthwyo'r Cyngor i fonitro cynnydd / perfformiad yn effeithiol.
  - Cael dangosyddion perfformiad sy'n mesur cynnydd y Cyngor ar ei nodau yn fwy effeithiol, sy'n canolbwyntio'n well ar ganlyniadau, a rhai y gellir eu meincnodi.
  - Rhoi ffocws cryfach ar fesur Ffyrdd Newydd y Cyngor o Weithio.

- Cynigir hefyd fframwaith perfformiad drafft newydd.
- Mae'r adroddiad hefyd yn adlewyrchu newidiadau a ddaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar 3 Gorffennaf 2023.

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a diolchodd i'r tîm bychan oedd yn gyfrifol am ei ysgrifennu am eu gwaith. Pwysleisiodd fod gweithredu yn dasg fawr.

Tynnwyd sylw at nifer o faterion yn y drafodaeth a ddilynodd:

- Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol am ddiweddariad ar gynnydd o ran rheoli perfformiad, mater a bwysleisiwyd gan Archwilio Cymru. Ymatebodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus drwy dynnu sylw at y llu o bethau yng nghynllun cyflawni'r cynllun corfforaethol sydd wedi cael eu datblygu i fynd i'r afael â pheth o'r feirniadaeth honno. Er enghraifft, nid oedd yr amcanion llesiant wedi cael eu mesur yn llawn gan yr ymrwymiadau presennol ond roedd llawer gwell sylw iddynt erbyn hyn. Mae'r nodau o dan bob amcan llesiant wedi cael eu hegluro ac mae'r ymrwymiadau hynny wedi cael eu datgysylltu oddi wrth y Dangosyddion Perfformiad. Roedd ffocws hefyd ar fesurau allbwn a chanlyniadau a phethau sy'n caniatáu cymhariaeth dros amser a'u cymharu ag eraill. Yn ogystal, roedd y fframwaith perfformiad newydd. Ychwanegodd fod ychydig o bethau wedi digwydd y tu allan i gynllun cyflawni'r cynllun corfforaethol. Mae CPA bellach yn ystyried gwybodaeth ychwanegol am staffio a chyllid yn y dangosfyrddau chwarterol. Roedd traciwr rheoleiddio hefyd sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis. Roedd rhywfaint o hyfforddiant wedi cael ei gynllunio hefyd ar gyfer yr holl staff sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar draws y sefydliad a sesiwn cynllun corfforaethol i'r holl staff ym mis Medi. At hynny, mae'r cynllun corfforaethol a rheoli perfformiad yn rhan o hyfforddiant sefydlu staff a rheolwyr.

- Bu Aelod y Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio yn trafod a oedd pawb yn deall y cynllun hwn ar bob lefel o'r sefydliad ac a oedd cefnogaeth iddo. Mewn ymateb, tynnodd y Prif Weithredwr sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â staff. Caiff sesiynau briffio staff eu trefnu ym mis Medi, ond ceir cyfathrebu rheolaidd hefyd ynglŷn â'r cynllun. Y dasg allweddol fyddai ei wneud yn berthnasol i waith pawb, er mwyn i bawb deimlo bod yr amcanion yn berthnasol iddynt, pa swydd bynnag y maent yn ei gwneud. Pwysleisiodd hefyd fod hwn yn ddarn o waith diwylliannol, yn rhan o sut yr ydym yn cyflawni perfformiad cryf ar draws yr awdurdod. Byddai elfen o friffio, hyfforddiant, cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus.
- Gan adeiladu ar hyn, pwysleisiodd Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd bwysigrwydd sicrhau bod y cynllun yn golygu rhywbeth i aelodau'r staff sy'n gweithio allan yn ein cymunedau.
- Holodd y Dirprwy Arweinydd ynghylch dangosyddion perfformiad a pham yr oedd ar COSC eisiau i'r sefydliad symud ymlaen ychydig yn wahanol. Nododd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus eu bod wedi mynd dipyn o bellter i lawr y ffordd honno. Roedd yn newid mawr, yn un lle roedd diffyg eglurder ynghylch sut y gallai amcanion a chanlyniadau allweddol weithio i awdurdod lleol ag ystod mor eang o wasanaethau. Dywedodd y byddent yn rhoi mwy o ystyriaeth i hynny dros y flwyddyn i ddod. Nododd hefyd ei bod yn debygol nad oes ganddynt y gallu na'r arbenigedd angenrheidiol yn y tîm i wneud hynny. Bu ffocws ar argymhellion Archwilio Cymru ar wella ymrwymiadau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol i gydweddu'n well â'r amcanion llesiant a gwella ansawdd a chywirdeb data. Roedd ymrwymiad hefyd i wneud cymariaethau dros amser ag awdurdodau eraill ac ni ellid gwneud hynny gyda dull cwbl newydd.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cabinet:

- wedi ystyried a chytuno ar ddrafft cyntaf Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2023/24 yn Atodiad 1.

wedi ystyried a chytuno ar y Fframwaith Perfformiad Corfforaethol wedi'i ddiweddaru yn Atodiad 2 a sut orau i ddefnyddio'r ddogfen ar draws y Cyngor.

210. <u>STRATEGAETH RHAGLEN CYMORTH TAI (STRATEGAETH DIGARTREFEDD) 2022 - 2026, CYNLLUN PONTIO AILGARTREFU CYFLYM A PHROSBECTWS TAI.</u>

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a Phennaeth Partneriaethau. Roedd ei bwrpas fel a ganlyn:

- Gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth ddrafft y Rhaglen Cymorth Tai, ar gyfer 2022 – 2026. Bydd y ddogfen hon yn disodli Strategaeth Ddigartrefedd bresennol CBSP 2018-2022. Mae cael y strategaeth hon ar waith yn un o ofynion Llywodraeth Cymru.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu a chyflwyno Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a Phrosbectws Tai i Lywodraeth Cymru. Unwaith eto, mae'r ddwy ddogfen hon yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru, ond nid oes angen ymgynghoriad cyhoeddus arnynt, fel ag y mae ar y Strategaeth y cyfeiriwyd ati uchod.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio yr adroddiad a diolchodd i'r tîm tai "bychan ond penderfynol iawn" ym Mhen-y-bont ar Ogwr am yr holl waith oedd wedi cael ei wneud i'w gynhyrchu. Aeth ymlaen i nodi bod pwysau sylweddol ar dai a digartrefedd o fewn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd dros 2500 o bobl ar y gofrestr tai gyffredin, dros 250 o bobl mewn llety dros dro yn disgwyl am gartrefi ac mae 51% o'r llety dros dro hwnnw mewn llety twristiaid ar hyn o bryd.

Nododd ymhellach ei fod wedi gofyn i'r tîm am gynllun ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad 12 wythnos. Roedd yna brofiadau bywyd go iawn yr oedd angen eu clywed ac roedd angen sicrhau bod Cyd-aelodau mewn pwyllgorau craffu ac ar draws y Siambr yn teimlo eu bod wedi cael eu clywed ac wedi cael gwrandawiad.

Adleisiodd yr Arweinydd y gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan y tîm Tai. Nododd mai nhw oedd y bobl oedd yn delio'n ddyddiol â'r cyflwyniadau yr oedd y Cyngor yn eu derbyn gan bobl oedd yn ddigartref ac oedd mewn dirfawr angen am ein cymorth.

Nododd y Dirprwy Arweinydd ei bod wedi cael ei chalonogi gan yr adroddiad a thynnodd sylw'r Aelodau at farn y rhanddeiliaid. Roedd nifer o randdeiliaid yn canmol nifer ac amrywiaeth y llety â chymorth sydd ar gael yn y Fwrdeistref, ond roedd angen mwy o ddewisiadau. Roedd hi hefyd yn meddwl mai un o'r dewisiadau y mae angen tynnu sylw ato yw ein plant sy'n derbyn gofal. Roedd angen elfen o ofal a chymorth hefyd, ac roedd hynny'n bwysau pellach ar gyllidebau.

Amlygodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd nifer o faterion arwyddocaol eraill fel rhan o'r drafodaeth ynghylch yr eitem hon ar yr agenda, gan gynnwys y canlynol:

- Gwerth cyfweliadau strwythuredig i gasglu profiadau rhanddeiliaid.
- Gwerth dulliau aml-asiantaeth a phartneriaeth o ddarparu gwasanaethau a chymorth i ddinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr (ac yn arbennig, ar gyfer y rhai sy'n cysgu allan).
- Y cynnydd mawr yn nifer y teuluoedd ar y Gofrestr Tai Cyffredin – cynnydd o 205% ers 2016.
- Pwysigrwydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth a ph'un a oedd yn cael ei gymryd o ddifrif gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- Weithiau roedd llun yn cael ei greu o bwy oedd angen tai a phwy oedd yn ddigartref, ac nid oedd hynny'n wir bob amser. Roedd dros gant o geisiadau ar y gofrestr tai gyffredin ar hyn o bryd ar gyfer pobl oedd eisiau llety gwarchod, felly nid yw bob amser yn wir bod y digartref yn bobl ifanc sengl. Yn anffodus, mae ystod amrywiol iawn o bobl yn ddigartref.
- Yn gynyddol, ceir cyflwyniadau gan bobl sydd wedi dod yn ddigartref ac yn anffodus, nid ydynt wedi cysylltu â CBSP cyn gynted â phosibl. Roedd yn hanfodol, os oedd rhywun wedi derbyn hysbysiad troi allan, bod angen iddynt gysylltu â'r Cyngor ar unwaith oherwydd efallai y byddai modd eu cynorthwyo.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y Strategaeth Ddigartrefedd a'r Cynllun Gweithredu drafft (Atodiadau 1 a 4).
- yn cymeradwyo cyflwyno'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (Atodiad 2) a'r Prosbectws Tai (Atodiad 3) i Lywodraeth Cymru.

yn nodi y bydd y Strategaeth Ddigartrefedd a'r Cynllun Gweithredu terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo cyn eu cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

211. PROSIECT MEITHRIN PERTHYNAS GYDA'N GILYDD (RBT)

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Bennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Ei ddiben oedd:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y prosiect Meithrin Perthynas Gyda'n Gilydd (RBT); ac
- amlinellu cerrig milltir allweddol cyn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol y Cabinet ym mis Medi 2023, yn dilyn cymeradwyaeth pwyllgor Cronfa Gwaddol Ieuenctid (YEF) ar 24 Gorffennaf 2023.

Roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Ar 2 Chwefror 2023, llwyddodd yr awdurdod lleol i sicrhau cais am tua £800 mil drwy'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid (YEF).
- Allan o 59 o geisiadau ledled Cymru a Lloegr, mae'r prosiect RBT yn un o ddim ond tri phrosiect llwyddiannus a'r unig brosiect yng Nghymru i sicrhau cyllid. Mae'r prosiect RBT yn werthusiad o wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant gan ddefnyddio'r Model Adfer ar ôl Trawma (TRM). Mae diddordeb arbennig gan y Swyddfa Gartref yn y prosiect i ystyried sut y gall y gwerthusiad lywio polisi yn y dyfodol ynghylch gweithio gyda phlant sydd wedi profi trawma.
- Bydd y prosiect yn cael ei dreialu o fewn chwe thîm ar draws yr holl grŵp cymorth i deuluoedd a chaiff ei roi ar waith o fis Medi 2023 tan fis Mawrth 2025.
- Ym mis Medi 2023, bydd yr awdurdod lleol yn ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gyda YEF. Bydd y CLG llawn ar gael yn dilyn cymeradwyaeth pwyllgor YEF ar 24 Gorffennaf 2023. Caiff y CLG a'i delerau ac amodau llawn eu rhoi i'r Cabinet fel diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar 19 Medi 2023.
- Er mwyn i weithrediad y prosiect ddod i rym o 20 Medi 2023, mae angen i adrannau gynllunio dros gyfnod yr haf a chyn dyddiad cyfarfod y Cabinet ym mis Medi 2023.
- Mae YEF wedi darparu enghraifft o'u telerau ac amodau cyffredinol i'w hystyried a nodir yn Atodiad A. Caiff y cytundeb terfynol, o fewn unrhyw delerau ac amodau penodedig, ei ddarparu ar 19 Medi 2023.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Addysg i'r Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd ddiolch i'r tîm a'u llongyfarch am yr holl waith caled i sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect hwn. Roedd y ffaith mai dyma'r unig un yng Nghymru i sicrhau cyllid yn gamp ryfeddol.

Aeth ymlaen i bwysleisio bod hwn yn brosiect cydweithredol enfawr, gyda thimau'n gweithio ar draws y Cyngor, nid yn unig ym meysydd addysg a thrafnidiaeth, ond yn y gwasanaethau cymdeithasol a lles. Roedd hwn yn ddull cydweithredol un Cyngor gwirioneddol.

Credai, o ran monitro cynnydd, mai'r lle gorau fyddai Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet (CCCP).

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn cefnogi'r cynnig bod y prosiect yn adrodd i'r CCCP. Credai fod hwn yn brosiect peilot arloesol ac roedd yn gyffrous iawn yn ei gylch. Credai hefyd y byddai angen monitro'r canlyniadau'n ofalus, ond roedd yn sicr y byddent yn gadarnhaol ac mai un o gryfderau'r prosiect hwn oedd yr asesiad a'r gwerthusiad parhaus gan Brifysgol Caint.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles y prosiect a gofynnodd sut y byddai'r canlyniadau'n cael eu cynnal unwaith y deuai'r cyllid i ben yn 2025. Ymatebodd Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai'r gobaith oedd y byddai'r prosiect yn gadael etifeddiaeth gadarnhaol iawn. Byddai pum aelod newydd o staff, a byddai ganddynt y math o sgiliau y byddai ar y sefydliad eu hangen bob amser. Roedd risg gydag unrhyw gyllid dros dro, ond teimlid mai risg isel iawn ydoedd oherwydd y byddai swyddi gwag bob amser ar gyfer pobl o'r math yr oeddent yn gobeithio eu recriwtio.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:

- yn nodi cynnwys yr adroddiad; ac

yn cymeradwyo mewn egwyddor cychwyn y prosiect ym mis Medi 2023 yn amodol ar gael telerau ac amodau terfynol a amlinellir yn y CLG.

212. TREFNIADAU CLUDIANT COLEG ÔL-16 2023-24

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan Bennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Ei ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth i ddefnyddio gwasanaeth bws masnachol presennol ar gyfer darparu cludiant o'r cartref i'r coleg o fis Medi 2023, yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg yr awdurdod lleol.

Y prif reswm am hyn oedd na allai'r awdurdod lleol gontractio gwasanaeth cludiant penodol mewn pryd ar gyfer mis Medi 2023, oherwydd ansicrwydd y farchnad yn gysylltiedig â Chynllun Argyfwng Bysiau newydd Llywodraeth Cymru.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Addysg yr adroddiad a chynigiodd nifer o welliannau i'r argymhelliad.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn hapus i gefnogi'r cynnig fel y'i diwygiwyd. Roedd hi'n meddwl bod hyn yn rhywbeth y gallai ein trigolion ei wneud i gefnogi ein trefniadau cyllidebol a'i bod yn llawer gwell i bobl ifanc fod yn fwy annibynnol, er mwyn dysgu rhai sgiliau da iawn, ac i fedru mynd o gwmpas pan fyddent yn mynd i fyd gwaith.

Derbyniwyd y diwygiadau arfaethedig i'r argymhelliad gan y Cabinet ac fe'u nodir isod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn cymeradwyo defnyddio gwasanaeth bws cyhoeddus presennol First Cymru, gan mai dyma'r unig wasanaeth bws cyhoeddus sy'n gallu cwrdd
- ag anghenion cludiant o'r cartref i'r coleg yr holl ddysgwyr cymwys sy'n mynychu Coleg Pen-y-bont o fis Medi 2023.
- yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i brynu tocynnau bws yn uniongyrchol gan First Cymru yn unol â'r hawlildiad oedd ar gael o dan CPR 3.2.3; ac
- yn cytuno i weithio gyda Choleg Pen-y-bont i hyrwyddo'r cynnig newydd o gludiant i'r coleg, gan gynnwys manteision dysgwyr coleg yn tanysgrifio i 'fyngherdynteithio' Llywodraeth Cymru ac yn ei ddefnyddio, fydd yn ei gwneud yn bosibl gwneud arbedion effeithlonrwydd ariannol i wasanaethau'r Cyngor, i'w ddiwygio i gynnwys y canlynol, "ac os mai ychydig sy'n tanysgrifio, adolygu ein polisi ôl-16 gyda'r bwriad o wneud hyn yn ofynnol."

diwygio Paragraff 3.4 i "mae'r awdurdod lleol bellach yn cynnig darparu tocynnau bws cludiant coleg i bob dysgwr cymwys ar gais."

213. GWEITHDREFN AR GYFER PENODI A DISWYDDO LLYWODRAETHWYR YSGOL YR ALL

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Addysg fod angen rhywfaint o fireinio a choethi ar yr adroddiad a chafodd ei dynnu'n ôl o ystyriaeth tan gyfarfod y Cabinet ym mis Medi.

214. BLAENRAGLENNI GWAITH Y CYNGOR, Y CABINET A'R PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'i ddiben oedd gofyn i'r Cabinet gymeradwyo eitemau i gael eu cynnwys ar Flaenraglen Waith y Cabinet am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2023 hyd 31 Hydref 2023 ac i'r Cabinet nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am yr un cyfnod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod o 1 Gorffennaf 2023 i 31 Hydref 2023 yn Atodiad 1.

yn nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am yr un cyfnod, fel y dangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad, yn y drefn honno.

215. TROSGLWYDDO SAFLEOEDD GORSAF HEDDLU CHEAPSIDE A MAES PARCIO AML-LAWR BRACLA UN I GOLEG PEN-Y-BONT AR OGWR.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'i ddiben oedd:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chefnogi awydd Coleg Pen-y-bont i adleoli eu prif gampws i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ar safleoedd sy'n eiddo i CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn hen Orsaf Heddlu De Cymru (SWP) a Maes Parcio Aml-lawr Bracla Un yn Cheapside; a
- Gofyn am gymeradwyaeth i symud ymlaen i drosglwyddo'r safleoedd hyn ar brydles hir i Goleg Pen-y-bont er mwyn hwyluso datblygiad y safle allweddol hwn o fewn Prif Gynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr (yr Uwchgynllun).

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol yr adroddiad a nododd ei bod yn gyffrous partneru â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr ar fuddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd mewn safle allweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Disgrifiodd yr Arweinydd y prosiect fel un cyffrous iawn ac atgoffodd aelodau'r Cabinet mai hwn oedd y buddsoddiad unigol mwyaf yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr ac mewn prosiect addysg yn y fwrdeistref sirol. Dyna oedd maint, cwmpas ac effaith bosibl y prosiect.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am sicrwydd ynghylch prisiad Bracla Un. Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol - y Cymunedau fod angen i CBS Pen-y-bont ar Ogwr fel awdurdod lleol, pryd bynnag yr oedd yn gwerthu asedau, gymryd cyngor gan brisiwr yr ardal. Y prisiad a roddwyd ar y safle hwn oedd £310 mil ond roedd hynny'n seiliedig ar safle wedi'i glirio. Felly, byddai'n costio mwy i wneud y safle'n barod i'w ailddatblygu na'r prisiad presennol.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd y ffaith y byddai datblygiad Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei adeiladu i safon di-garbon net.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:

- yn nodi'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran caffael a dymchwel hen Safle Gorsaf yr Heddlu yn Cheapside yn barod i'w drosglwyddo i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi eu cynnig ar gyfer campws Canol y Dref.
- yn nodi'r cynnydd o ran dymchwel maes parcio aml-lawr Bracla Un.

yn awdurdodi swyddogion i gwblhau'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i drosglwyddo'r ddau safle i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr am ddim ystyriaeth yn unol â Phrotocol Cydleoli a Throsglwyddo Tir Ystadau LlC a Rheolaeth y Ddeddf Cymhorthdal er mwyn cefnogi a hwyluso datblygiad Campws Canol y Dref yn unig, lle, os na fydd y datblygiad hwnnw yn mynd rhagddo y bydd y tir yn trosglwyddo'n ôl i CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

216. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'i ddiben oedd rhoi adroddiad i'r Cabinet er gwybodaeth i'r Aelodau, a'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau

Arolygiadau Estyn mewn Ysgolion Cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf 2023.

Roedd yr ysgolion fel a ganlyn:

- Ysgol Gynradd Llangrallo;
- Ysgol Gynradd Croesty;
- Ysgol Gynradd Cwmfelin;
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig;
- Ysgol Gynradd Nant-y-moel;
- Ysgol Gynradd Newton;
- Ysgol Gynradd y Garth;
- Ysgol Fabanod Bryntirion; ac
- Ysgol Gynradd Caerau.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Addysg yr adroddiad a gwnaeth sylwadau ar rywfaint o'r gwaith da oedd yn digwydd ym mhob un o'r ysgolion.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

217. EITEMAU BRYS

Dim

218. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra byddent yn ystyried yr eitemau busnes canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth oedd wedi ei heithrio fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi eu gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyrid yn yr holl amgylchiadau yn ymwneud â'r eitem, fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso lles y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

219. AIL-GAFFAEL GWASANAETH DYLUNIO AC YMGYNGHORI PEIRIANNEG CYD-FENTER

220. ADFYWIO GLANNAU PORTHCAWL:

221. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified